

# Manylebau Hygyrchedd y Fflyd

Canllaw ar gyfer ein fflyd o drenau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Diweddariad Ionawr 2026**

LP26.01_FAS_A4wp_v1

# Croeso

Dyma drosolwg o'n fflyd bresennol a'n fflyd arfaethedig o drenau, sy'n rhoi manylion y cyfleusterau sydd ar gael ar y trenau ar gyfer pobl ag anawsterau symud ac ar gyfer beicwyr.
Rydyn ni wrthi'n cyflwyno ein fflyd newydd o drenau, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2026. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru pan fydd trenau'n cael eu hadnewyddu neu eu tynnu'n ôl.
.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Teithio hygyrch | **4** |
| Cysylltu â ni | **5** |
| Cyfleusterau ar y trên | **6** |
| Dosbarth 150 | **8** |
| Dosbarth 153 | **12** |
| Dosbarth 158 | **18** |
| Cerbyd Mark 4 | **22** |
| Dosbarth 230 | **26** |
| Dosbarth 197 | **30** |
| Dosbarth 231 | **38** |
| Dosbarth 756 Flirt | **42** |
| Dosbarth 398 Citylink | **48** |



# Teithio hygyrch

Rydyn ni am ei gwneud hi mor hawdd â phosib i chi deithio gyda ni, ac rydyn ni yma i helpu os oes gennych chi anghenion hygyrchedd. Mae rhagor o wybodaeth yn trc.cymru/gwybodaeth/teithwyr/teithio-hygyrch/gwybodaeth-am-deithio-hygyrch.

## Cymorth wrth Deithio

Gallwch archebu cymorth arbennig ymlaen llaw - hyd at 2 awr cyn i'ch taith ddechrau. I archebu, neu i gael rhagor o wybodaeth am Gymorth i Deithwyr:

- Ffoniwch ein tîm Cymorth wrth Deithio ar **033 300 50 501**
- RelayUK **18001 033 300 50 501**
- Ewch i trc.cymru/cymorth-i-archebu/ffurflen

Gallwch hefyd "gyrraedd a mynd" heb archebu cymorth arbennig ymlaen llaw. Byddwn yn eich helpu i gyrraedd lle'r ydych chi eisiau mynd.

Os hoffech wybod mwy am ein gwasanaethau ar y trên, cysylltwch â'r tîm Cymorth wrth Deithio. Gallan nhw helpu i gynllunio'ch taith ac awgrymu gwasanaethau eraill i chi.

I gael gwybodaeth am gymorth i deithwyr, ewch i trc.cymru/cymorth-i-archebu.

## Cymorth yn ystod eich taith

Os bydd angen cymorth arnoch chi wrth fynd ar y trên ac oddi arno, byddwch chi'n cael help gan y goruchwyliwr ar y trên neu gan staff yr orsaf os bydd staff yn bresennol. Mae ein llyfryn 'Gwasanaethau Rheilffyrdd Hygyrch – helpu teithwyr hŷn ac anabl' yn cynnwys manylion ynghylch pa orsafoedd sydd â staff ac ar ba amseroedd maen nhw ar gael i helpu.

## Cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd

Gallwch ddod â'ch cadair olwyn a'ch sgwter symudedd ar ein trenau, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion o ran maint a phwysau. Y rhain yw:

- yn mesur hyd at 700mm x 1200mm (yn cynnwys y silff traed)
- â radiws troi o 900mm
- ni chaiff uchafswm pwysau'r gadair olwyn a'r teithiwr gyda'i gilydd fod yn fwy na 300kg.

Mae gan bob un o'n trenau rampiau neu fynediad gwastad ar gyfer cadeiriau olwyn a mynediad i sgwteri symudedd.

Gallwch weld pa mor hygyrch yw ein holl orsafoedd yn trc.cymru/hygyrchedd-gorsafoedd.

# Cysylltu â ni

Gallwn ni helpu gyda phob cam o'ch taith a bydden ni'n croesawu eich adborth. Mae'r holl ffyrdd y gallwch chi gysylltu ar gael yn trc.cymru/cymorth-a-chysylltu.

## Ar-lein

Cynlluniwch a bwrw golwg ar eich taith yn trc.cymru, nationalrail.co.uk a manwerthwyr tocynnau trydydd parti.

## Cyfryngau cymdeithasol

Anfonwch neges atom ar WhatsApp
**07790 952 507**

Dilynwch ni ar X **@tfwrail**
Llun - Gwe: 0700 - 2000,
dydd Sadwrn: 0800 - 2000,
dydd Sul: 1100 - 2000

## Dros y ffôn

Ffoniwch ein canolfan alwadau
**03333 211 202**
Dydd Llun - dydd Sadwrn: 0800 - 2000,
dydd Sul: 1100 - 2000
Codir cost cyfraddau lleol ar alwadau i'n rhif o ffonau BT.

## Drwy'r post

CYSYLLTIADAU CWSMERIAID
RHEILFFYRDD TRC

## Sgwrsiwch â ni wyneb yn wyneb

Bydd ein cydweithwyr yn yr orsaf a staff y pwynt cymorth i gwsmeriaid yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau a rhoi gwybodaeth. Mae gan bob un o'n trenau goruchwyliwr ar y trên a fydd yn hapus i helpu gydag unrhyw ymholiadau.

## Cysylltu â chi

Pan fyddwch chi'n cysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol (X @tfwrail and WhatsApp), rydyn ni'n ceisio ymateb o fewn 10 munud (yn ystod oriau agor.) Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi cyfryngau cymdeithasol ar gael yn trc.cymru/cymorth-a-chysylltu/rheilffordd/cyfryngau-cymdeithasol.

Pan fyddwch yn ysgrifennu atom drwy'r post, neu drwy ein ffurflen ar y we, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch os bydd e-bost yn cael ei ddarparu. Ein nod yw ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith (ac eithrio penwythnosau a gwyliau banc.) Gall gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith ar adegau prysur iawn.

Os byddwch yn cysylltu â ni dros y ffôn ac ni allwn ateb eich ymholiad ar unwaith, ein nod yw eich ffonio'n ôl o fewn 3 diwrnod gwaith.

## Fformatau Eraill

Mae ein holl ddogfennaeth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac felly ar gael yn ddwyieithog. Mae fformatau amgen megis print bras, Braille, a sain, ar gael yn rhad am ddim gan y tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Darperir dogfennau print mawr o fewn saith diwrnod, a fformatau eraill cyn gynted â phosibl.

# Cyfleusterau ar y trên

Dyma'r cyfleusterau sydd ar gael ar ein trenau.

## Hygyrchedd

**Rampiau mynediad.** Rampiau neu fynediad gwastad ar gyfer cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd.

**Botymau cymorth.** Er mwyn i chi allu galw am help pan fydd angen.

**Seddi â blaenoriaeth.** Gyda mynediad haws a rhywfaint o le ychwanegol.

**Lleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn.** Mae nifer y lleoedd yn amrywio.

**Toiled hygyrch**[1]. Mae lled y drysau'n amrywio.

**Lleoedd newid babanod**[1]. Mewn toiledau hygyrch.

## Cyfleusterau eraill

**Socedi gwefru.** Tri phin ac USB, yn amrywio.

**Sgriniau gwybodaeth gweledol.**

**Wi-Fi.**

**System annerch y cyhoedd.**

1. Ddim ar gael ar Dosbarth 398.

# Crynodeb

Dyma olwg sydyn ar hygyrchedd a nodweddion eraill sydd ar gael ar bob un o’n trenau.

| | Lleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn | Seddi â blaenoriaeth | Toiled hygyrch a lleoedd newid babanod | Toiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn | Gwasanaeth arlwyo yn y sedd | Cerbyd bwyty |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dosbarth 150** | 2 | 13 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 153** | | | | | | |
| 153/3 + 153/5 | 3 | 12 | 1 | 1 | Nac oes | Nac oes |
| 153/3 + 153/9 | 3 | 12 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 158** | 2 | 14 | 1 | 1 | Oes | Nac oes |
| **Mark 4** | 3 | 24 | 2 | 3 | Oes | Oes |
| **Dosbarth 230** | 2 | 17 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 197** | | | | | | |
| 2 gerbyd | 2 | 14 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| 3 gerbyd | 2 | 22 | 1 | 1 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 231** | 2 | 22 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 756** | | | | | | |
| 3 gerbyd | 2 | 18 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| 4 gerbyd | 2 | 26 | 1 | 0 | Nac oes | Nac oes |
| **Dosbarth 398** | 2 | 12 | 0 | 0 | Nac oes | Nac oes |

# Dosbarth 150

Trenau diesel dau gerbyd yw'r Dosbarth 150, a adeiladwyd yn 1987.
Mae gennym 19 yn ein fflyd.








# Llwybrau

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 150.

- Gorllewin Cymru i Abertawe a Chaerdydd
- Maesteg i Lynebwy
- Treherbert i Gaerdydd
- Pontypridd i Fae Caerdydd
- Rhymni i Gaerdydd, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr drwy Fro Morgannwg
- Caerdydd i Cheltenham Spa



# Cynllun y cerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

13 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws: 825mm.

## Nodweddion eraill

107 o seddi a naill ai pedair neu chwech o seddi codi ychwanegol.

Lle i bedwar beic.

# Dosbarth 153

Mae trenau Dosbarth 153, a adeiladwyd rhwng 1987 ac 1988, yn drenau diesel un cerbyd sy'n cael eu cysylltu fel parau.

Mae gennym dri math o uned mewn gwasanaeth sydd wedi'u cysylltu fel a ganlyn:

- Dosbarth 153/3 â Dosbarth 153/5 (Teithio Llesol). Mae gennym chwech yn ein fflyd. Rheilffordd Calon Cymru yn unig.
- Dosbarth 153/3 â Dosbarth 153/9. Mae gennym 17 yn ein fflyd.







# Llwybrau

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 153.

- Abertawe i Amwythig ar Reilffordd Calon Cymru.



# Cynllun y cerbyd



## Hygyrchedd

Tri lle i ddefnyddwyr cadair olwyn.

12 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 820mm.


## Nodweddion eraill

98 o seddi a
naw o seddi codi ychwanegol.

Lle i wyth beic a lle hyblyg ar gyfer pedwar beic arall.

Un toiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn.

# Cynllun y cerbyd



# Hygyrchedd

Tri lle i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 820mm.

12 sedd flaenoriaeth.

# Nodweddion eraill


126 o seddi
a chwech o seddi codi ychwanegol.

Lle i bedwar beic.

# Dosbarth 158

Trenau diesel dau gerbyd a adeiladwyd rhwng 1989 ac 1992 yw'r Dosbarth 158.
Mae gennym 22 yn ein fflyd.
Mae llai o le i symud cadair olwyn yn nhoiled cyffredinol y Dosbarth 158.










# Llwybrau

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 153.

- Caergybi - Amwythig - Birmingham.
- Amwythig - Pwllheli ac Aberystwyth ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.



# Cynllun y cerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 780mm.

14 sedd flaenoriaeth.

## Nodweddion eraill

134 o seddi.

Lle i ddau feic.

Un toiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn.

Gwasanaeth arlwyo yn y sedd ar rai gwasanaethau.

# Cerbyd Mark 4

Mae Cerbydau Mark 4 yn goetsys sy'n cael eu tynnu gan locomotif, a adeiladwyd rhwng 1989 ac 1992.
Mae gennym saith trên pum cerbyd yn ein fflyd
.










# Llwybrau

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Cerbyd Mark 4.

- Abertawe i Gaerdydd, Amwythig a Manceinion ar Lein y Gororau
- Caerdydd i Amwythig, Caer a Chaergybi



# Cynllun y cerbyd



# Hygyrchedd

Lle i ddau ddefnyddiwr cadair olwyn yn y dosbarth safonol.

Lle i ddau ddefnyddiwr cadair olwyn yn y dosbarth cyntaf.

30 sedd flaenoriaeth.

Dau doiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

# Nodweddion eraill

246 o seddi a chwech o seddi codi ychwanegol yn y dosbarth safonol.

Gwasanaeth arlwyo yn y sedd ar rai gwasanaethau.

41 o seddi dosbarth cyntaf.

Cerbyd bwyty.

Lle i bum beic, mewn cerbyd injan ar wahân.

Tri thoiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn.

# Dosbarth 230

Mae Dosbarth 230 yn gysyniad newydd o drên Diesel, Batri ac Aml-Uned Batri Hybrid Trydan (BHMU). Maen nhw wedi'u haddasu yn 2019 -2021 o drenau stoc D78 Trenau Tanddaearol Llundain.









# Llwybrau

Dyma'r llwybr prysuraf lle welwch chi drenau Dosbarth 230.

- Wrecsam Canolog i Bidston.



# Cynllun y cerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

17 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 830mm.

## Nodweddion eraill

129 o seddi
a 10 o seddi codi ychwanegol.

Pedwar lle hyblyg i feiciau.

# Dosbarth 197

Trenau diesel dau a thri cherbyd yw'r Dosbarth 197 a adeiladwyd rhwng 2020 a nawr. Mae 77 yn ein fflyd - 51 dau gerbyd a 26 thri cherbyd.








# Llwybrau


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 197.

- Maesteg i Lynebwy
- Caerdydd i Gaerfyrddin, Glynebwy a Phen-y-bont ar Ogwr (drwy Fro Morgannwg)
- Caerfyrddin i Aberdaugleddau, Abergwaun a Doc Penfro
- Caer i Faes Awyr Manceinion (drwy Frodham), Lerpwl Lime Street, Amwythig (drwy Crewe), Amwythig (drwy Wrecsam) a Chaergybi
- Crewe i Fanceinion Piccadilly (drwy Wilmslow)
- Llandudno i Flaenau Ffestiniog
- Caerdydd i Cheltenham Spa
- Amwythig i Birmingham a Chaerdydd
- Wrecsam Canolog i Bidston
Cefnogi pan na fydd trenau 230 ar gael



# Cynllun y cerbyd

Dau gerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

14 sedd flaenoriaeth.


## Nodweddion eraill

116 o seddi
a chwech o seddi codi ychwanegol.

Dau le hyblyg i feiciau.

# Cynllun y cerbyd

Tri cherbyd



# Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

22 sedd flaenoriaeth.

# Nodweddion eraill


190 o seddi a naw o
seddi codi ychwanegol.

Pedwar lle hyblyg i feiciau.

Un toiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn.

# Cynllun y cerbyd

Tri cherbyd, gyda seddi lletach



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

22 o seddi blaenoriaeth lled safonol a phedair o seddi blaenoriaeth lletach

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

## Nodweddion eraill

158 o seddi lled safonol
a naw o seddi codi ychwanegol.

16 o seddi lletach.

Pedwar lle hyblyg i feiciau.

Un toiled, ddim yn addas i gadeiriau olwyn.

# Dosbarth 231

Trenau diesel pedwar cerbyd yw'r Dosbarth 231 a adeiladwyd rhwng 2020 a nawr. Mae gennym 11 yn ein fflyd.








# Llwybrau

Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 231.

- Maesteg i Lynebwy.
- Rhymni i Gaerdydd ac Ynys y Barri.
- Caerdydd i Cheltenham Spa.



# Cynllun y cerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

22 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

## Nodweddion eraill

170 o seddi
a 34 o seddi codi ychwanegol.

Lle hyblyg ar gyfer naw beic.

# Dosbarth 756 Flirt

Trenau tri-modd tri a phedwar cerbyd yw'r Dosbarth 756 Flirt sy'n defnyddio diesel, trydan a batri. Cawsant eu hadeiladu rhwng 2020 a nawr.

Mae gennym ni 24 o'r trenau newydd sbon hyn yn ein fflyd i gyd - saith ohonyn nhw gyda thri cherbyd ac 17 gyda phedwar cerbyd.

.









# Llwybrau


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle gallwch ddod o hyd i drenau Dosbarth 756.

- Treherbert i Gaerdydd.
- Aberdâr i Ferthyr Tudful drwy Linell y Ddinas a Chaerdydd Canolog.
- Cortyton i Benarth a Chaerffili.
- Rhymni i Gaerdydd, Ynys y Barri a Phen-y-bont ar Ogwr drwy Fro Morgannwg.



# Cynllun y cerbyd

Tri cherbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

18 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.


## Nodweddion eraill

118 o seddi
a 23 o seddi codi ychwanegol.

Lle hyblyg ar gyfer chwe beic.

# Cynllun y cerbyd

Pedwar cerbyd



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

26 sedd flaenoriaeth.

Un toiled hygyrch.
Lled y drws 800mm.

## Nodweddion eraill

158 o seddi
a 32 o seddi codi ychwanegol.

Gofod hyblyg ar gyfer naw beic seiclo.


# Dosbarth 398 Citylink

Trenau tram tri cherbyd yw'r Dosbarth 398 Citylink sy'n defnyddio trydan a batri. Cawsant eu hadeiladu rhwng 2020 a nawr. Bydd y gwaith cyflwyno'n dechrau yn 2026 ac ar ôl ei gwblhau bydd gennym 36 o'r trenau tram newydd sbon hyn yn ein fflyd. Sylwch nad oes toiledau ar gael.

Bydd toiledau ar gael mewn gorsafoedd ar hyd y llwybr, gydag uchafswm o 20 munud rhwng arosfannau.





# Llwybrau


Dyma'r llwybrau mwyaf cyffredin lle byddwch yn dod o hyd i drenau Dosbarth 398 Citylink, yn dilyn eu lansio yng ngwanwyn 2026.

- Treherbert i Gaerdydd.
- Aberdâr i Ferthyr Tudful drwy Linell y Ddinas a Chaerdydd Canolog.
- Pontypridd i Fae Caerdydd.



# Cynllun y cerbyd

Gall cynllun y cerbydau a'r cyfleusterau ar y trenau newid gan fod y trenau hyn yn dal i gael eu cynhyrchu, ac efallai y bydd rhai mân newidiadau'n cael eu gwneud cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno i'n rhwydwaith.



## Hygyrchedd

Dau le i ddefnyddwyr cadair olwyn.

12 sedd flaenoriaeth.

## Nodweddion eraill

104 o seddi
a 28 o seddi codi ychwanegol.

Lle hyblyg ar gyfer chwe beic.